


**Dydd San Ffolant Cymru i anrhydeddu tywysoges o'r bedwaredd ganrif yn cael teimlad retro yn y Rhyl.**

Dathlwyd Dydd Santes Dwynwen – fersiwn Cymru o Ddydd San Ffolant – yn y dref dydd Sadwrn.

Wedi ei drefnu gan Gyngor Tref y Rhyl, daeth côr cymunedol Ghostbuskers o Tape Music & Film â cherddoriaeth – gan gynnwys caneuon serch a hen ffefrynnau – i'r stryd fawr.

Ond roedd trît ychwanegol i'r 100 o bobl cyntaf a ddaeth draw, gyda'r cynghorwyr yn dosbarthu bathodynnau retro #LoveRhyl a wnaed ar gyfer yr achlysur.

Meddai maer y Rhyl, y Cynghorydd Ellie Chard: "Santes Dwynwen yw santes y cariadon ac rydym oll fel cynghorwyr yn caru'r Rhyl. Roedd Dydd Santes Dwynwen yn teimlo fel cyfle delfrydol i roi bathodynnau i bobl a rhannu'r angerdd sydd gennym am ein tref.

**Mwy/…**

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications

“Cafodd y gerddoriaeth a’r bathodynnau dderbyniad da, ac mae’r canu yn cychwyn blwyddyn wych arall o ddigwyddiadau cymunedol am ddim yn y dref."

Dydd Gwyl Dewi fydd yr achlysur nesaf i’w ddathlu gan y cyngor tref gyda cherddwyr stiltiau a cherddoriaeth ar y stryd fawr o 11am ymlaen ar 29ain Chwefror.

**Capsiwn:** Maer y Rhyl, y Cynghorydd Ellie Chard gyda Lexie a Mason yn nathliadau Dydd Santes Dwynwen.